



SAIL
DATABANK

ADRODDIAD BLYNYDDOL



Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
Health and Care
Research Wales



2023 - 2024

CYNNWYS

03 ... CYFLWYNIAD

**05 ... STRWYTHUR
SEFYDLIADOL**

**06 ... GWOBR PEN-BLWYDD Y
FRENHINES**

**08 ... PARTNERIAETHAU
A CHYDWEITHREDIADAU
ALLWEDDOL**

**25 ... CYNNWYS AC YMGYSYLLTU Â'R
CYHOEDD**

27 ... EIN BLWYDDYN MEWN NIFEROEDD

28 ... LLIFAU GWAITH

36 ... RHESTR TERMAU

CYFLWYNIAD

Ym mis Mawrth eleni, cefais y fraint o fynd i Balas Buckingham i dderbyn Gwobr Pen-blwydd y Frenhines ar ran Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Cefais fy hun yn myfyrio gyda balchder mawr ar ba mor bell y mae SAIL wedi dod o ddechrau digon di-nod. Roedd nifer o heriau yr oedd angen mynd i'r afael â nhw wrth sefydlu Banc Data SAIL; ar y pryd (2006), ac eithrio enghreifftiau nodedig yn Awstralia a Chanada, ychydig iawn o wledydd eraill a oedd â seilwaith cysylltu data y gallem ddysgu ohono. O ganlyniad, roedd hyn yn oed trafodaethau ar y pwnc hwn gyda llywodraeth, cyrff proffesiynol, sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, rheoleiddwyr a'r cyhoedd yn weithgareddau arloesol yn aml. Felly, yn bragmataidd, dechreuodd gwaith Banc Data SAIL fel cynllun peilot mewn un awdurdod lleol yn rhanbarth Gorllewin Cymru.

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, treuliyd blynyddoedd cynnar Banc Data SAIL yn adeiladu ein technoleg, ein seilwaith a'n capasiti, ac yn ychwanegu at y setiau data a ddaliwyd gan y Banc Data. Amlinellir rhai o'r datblygiadau allweddol yma. Yn 2008, wrth i fwy o geisiadau i ddefnyddio data SAIL ddod i law, penodwyd Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth annibynnol i roi cyngor annibynnol rheolaidd i ni ar gynigion i weithio gyda'r data, yn hytrach na defnyddio adolygiad ad hoc. Yn 2009, ar ôl y cyfnod cynllunio a chaffael, comisynwyr y cyntaf o blith rhaglen o archwiliadau mewnol annibynnol arbenigol ar gyfer cydymffurfio â Llywodraethu Gwybodaeth. Mae bod yn agored i graffu proffesiynol er mwyn gwneud gwelliannau i'r system ac i roi sicrwydd i'n darparwyr data, y cyhoedd, gweithwyr clinigol/gwasanaeth proffesiynol, ein rhanddeiliaid, cyllidwyr a rheoleiddwyr, yn egwyddorion sy'n bwysig i ni. Rhwng 2007 a 2009, dim ond ar y safle yr oedd modd cael gafael ar ddata SAIL, a hynny drwy derfynellau penodedig a oruchwyliwyd gan staff Banc Data SAIL. Yn 2010, aethom i'r afael â'r mater hwn drwy ddatblygu Porth SAIL fel llwyfan technoleg a dadansoddi o bell, yr oedd modd ei ddefnyddio unrhyw le yn y byd. Arweiniodd y datblygiadau hyn a datblygiadau eraill at ein model gweithredu cyfredol

Rhwng 2020 a 2023, roedd gwaith SAIL yn sail i amrywiaeth eang o waith ymchwil ar Covid-19 a gwybodaeth bolisi ymateb cyflym a lywiwyd gan ddata ar gyfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. SAIL oedd y ganolfan a oedd yn perfformio orau yn gyson ar draws y pedair gwlad o ran caffael data newydd ac ymgymryd â phrosiectau. SAIL hefyd yw'r system mynediad a chysylltu data genedlaethol ar gyfer data cyhoeddus yng Nghymru (o bob sector ac ar draws mwy na 500 o sefydliadau) ac mae'n darparu gwasanaethau bancio a chysylltu data ar gyfer nifer o fentrau byd-eang. Yn hanfodol, mae gwaith SAIL yn cyfoethogi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer llunwyr polisi, ac yn eu helpu i ddeall y cydberthnasau rhwng y gwasanaethau amrywiol a ddarperir ganddynt yn well, gan wella bywydau pobl yn y pen draw.

Nawr, yn 2024, mae SAIL wedi dod yn sefydliad blaengar, yn Amgylchedd Ymchwil yr Ymddiriedir Ynddo (TRE) ac yn Storfa Ddata ddiogel, sydd wedi'i achredu i safonau uchaf y diwydiant. Mae'n cael ei gydnabod fel un o'r banciau data poblogaeth ehangaf a nodweddir orau yn y byd, mae'n cynnal data cynhwysfawr ar boblogaeth Cymru ac ymddiriedir ynddo fwyfwy i reoli data sy'n cynrychioli poblogaethau'r DU. Mae'n darparu data dienw cysylltiol gyda chyfres gynhwysfawr o offer a methodolegau dadansoddol, sy'n galluogi ymchwilwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwyddonwyr ledled y DU ac yn rhyngwladol i ddefnyddio data cymhleth ac amrywiol ar ddyfnder a graddfa nas gwelwyd o'r blaen i gynnal gwaith ymchwil sy'n arwain y byd.

Er bod pob aelod o dîm SAIL yn falch iawn o'r hyn rydym wedi'i gyflawni, rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol ac rydym am barhau i dyfu a gwella. Gan edrych i'r dyfodol, hoffem barhau i fod yn arweinydd cydnabyddedig yn y sector ac yn esiampl wrth gynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes gwyddor data, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n Panel Defnyddwyr i sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i graffu arnom ac yn ein cefnogi ym mhob agwedd ar ein gwaith. Mewn cydweithrediad â'n partner technoleg SeRP, rydym wedi ymrwymo i wella mynediad at adnoddau data mewn seilo er mwyn galluogi mwy o waith ymchwil sy'n arwain y byd er budd y cyhoedd ac i sicrhau twf economaidd. Ac, yn olaf, wrth i rai o aelodau sefydlol SAIL symud tuag at ddiwedd eu gyrfa, rydym yn parhau i hyfforddi a datblygu'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr data, gan gefnogi myfyrwyr ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa drwy ddarparu mynediad at adnoddau hyfforddi a data mewn amgylcheddau diogel sy'n hawdd cael mynediad atynt.

David Ford

Cyfl-gyfarwyddwr, Banc Data SAIL

EIN SEFYDLIAD

CYLLIDWYR

Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru

UK Research &
Innovation

Sefydliadau
Ymchwil Eraill

GRWPIAU CYSYLLTIEDIG

Bwrdd
Cynghori
Gwyddonol
Allanol

SeRP

I Panel Adolygu
Llywodraethu
Gwybodaeth

Panel
Defnyddwyr

Defnyddwyr
SAIL (Cyfres
Gweminarau
Arddangos)

Grŵp
Cyswllt
DHCW

RHEOLWYR

Yr Athro
David Ford
Cyd-gyfarwyddwr

Yr Athro
Ronan Lyons
Cyd-gyfarwyddwr

Yr Athro
Simon Thompson
Cyd-gyfarwyddwr

Yr Athro
Kerina Jones
Cyd-gyfarwyddwr

Yr Athro
Ashley Akbari

Jon Smart
Prif Swyddog
Gweithredu

SWYDDOGAE I HAU

Gwasanaethau
Ymchwil SAIL

Gweinyddu a
Datblygu Busnes


Cyfreithiol a
Llywodraethu

Marchnata,
Cyfathrebu ac
Ymgysylltu

Mae'r **Athro Simon Thompson**, Prif Swyddog Technegol ar gyfer Banc Data SAIL, wedi cael ei benodi'n **Gyd-gyfarwyddwr SAIL**. Bydd yr Athro Thompson yn Uwch Swyddog Cyfrifol a fydd yn arwain y canlynol



Yr holl ddatblygiadau a gweithrediadau technolegol ar draws SAIL
Rheoli'r holl ddata a ddelir – Rheoli a darparu data a data sy'n dod i mewn
Cyflwyno mathau newydd o ddata e.e. data genomeg a delweddu
Arloesi a datblygu



Banc Data SAIL yn ennill Gwobr Pen-blwydd y Frenhines

Mae Banc Data SAIL wedi ennill Gwobr Pen-blwydd y Frenhines i gydnabod y defnydd y mae wedi'i wneud o ddata cyhoeddus i wella iechyd a lles y boblogaeth. Cyflwynwyd y Wobr i Gyd-gyfarwyddwr Banc Data SAIL, yr Athro Ronan Lyons OBE, gan y Frenhines Camilla a Duges Caerloyw mewn seremoni ym Mhalas Buckingham

Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwyddonwyr data bellach yn gallu cynnal ymchwil gadarn gan ddefnyddio data cynhwysfawr SAIL am boblogaeth Cymru a'r DU. Mae Banc Data SAIL, sy'n rhan o Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd y Brifysgol ac sy'n cael ei ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, yn dwyn ynghyd, yn cysylltu ac yn dadansoddi data o sawl ffynhonnell i ddarparu mewnwelediadau lefel poblogaeth ar gyfer y llywodraeth a llunwyr polisi.

Mae'r Gwobrau, a ddyfarnwyd am y tro cyntaf yn 1994, yn cael eu rhoi bob dwy flynedd ac maent yn cydnabod gwaith rhagorol gan golegau a phrifysgolion y DU, sy'n dangos rhagoriaeth ac arloesedd ac sy'n sicrhau budd gwirioneddol i'r byd ehangach.

Dyweddodd Cyd-gyfarwyddwyr SAIL y canlynol am y wobr: □

Yr Athro Ronan Lyons: □

“Mae’n ffrind anhygoel cael Gwobr Pen-blwydd y Frenhines ym Mhalas Buckingham, □ ac mae’n dangos y gwaith rhagorol y mae pob aelod o dîm SAIL wedi’i wneud. □ Mae heddiw wedi bod yn ddiwrnod cofiadwy i ni i gyd. □ Mae SAIL yn cynrychioli hanfod gwyddor tîm, □ gan feithrin cydweithrediad rhwng y byd academiaidd, □ y GIG, □ endidau sector cyhoeddus a’r gymuned ehangach i fynd i’r afael â □ materion hollbwysig sy’n effeithio ar boblogaeth Cymru a phoblogaethau ledled y byd.” □

Yr Athro David Ford: □

“Mae siwrnai SAIL, □ i sefydlu i fod ar flaen y gad wrth fynd i’r afael â □ her ddigynsail COVID-19, □ wedi bod yn anhygoel. □ Rydym yn falch iawn bod ymdrechion diflino tîm SAIL, □ ochr yn ochr â’n rhwydwaith eang o gydweithredwyr o’r GIG, □ y llywodraeth, □ a’r byd academiaidd, □ wedi cael eu cydnabod gyda’r wobr fawreddog hon. □ Mae’r wobr hon yn dangos pŵer gwaith tîm ac ymdrech gyfunol, □ ac rydym yn rhannu’r balchder a’r gydnabyddiaeth hon â □ phob aelod o’n tîm.” □

Yr Athro Simon Thompson: □

“Mae derbyn Gwobr Pen-blwydd y Frenhines yn dyst i’n tîm ymroddedig a gweledigaethol, □ y mae eu hymdrechion diflino wedi sicrhau bod Banc Data SAIL ar flaen y gad ym maes Gwyddor Data Poblogaeth. □ Mae SAIL wedi ymrwmo i arwain y ffordd wrth ddatblygu modelau mynediad diogelu preifatrwydd a rhannu data arloesol. □ Daw’r gydnabyddiaeth hon ar adeg allweddol wrth i’r dirwedd gwyddor data ddatblygu yn y DU, □ gan bwysleisio pwysigrwydd cynyddol data wrth lywio strategaethau cenedlaethol.” □

I ddarllen mwy: □

<https://www.queensanniversaryprizes.org.uk/winners/harnessing-public-data-to-improve-population-health-and-wellbeing/> □



**The Queen's
Anniversary
Prizes**

PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU ALLWEDDOL

Effaith pandemig COVID-19 ar achosion o gyflyrau hirdymor yng Nghymru

Yn ôl astudiaeth cysylltu data poblogaeth, a ddefnyddiodd gofnodion iechyd sylfaenol ac eilaidd, roedd llai o bobl na'r disgwyl yng Nghymru yn cael diagnosis o gyflyrau hirdymor yn 2020 a 2021.

Canfu'r astudiaeth, a arweiniwyd gan ymchwilyr o Brifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Chanolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd a Chanolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys (Canolfan PRIME Cymru), fod cyfraddau diagnosis wedi cynyddu dros y cyfnod o ddwy flynedd ond, ar gyfer y rhan fwyaf o gyflyrau, roeddent yn dal i fod yn is na'r disgwyl ar ddiwedd 2021, gan nodi ôl-groniad posibl o gleifion sydd

heb gael diagnosis y mae'n anhebygol bod eu cyflyrau yn cael eu monitro a'u rheoli'n systematig. Ymhlith y cyflyrau amlaf roedd clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) ac anhwylderau gorbryder a oedd yn cyfateb i fwy na 30 ac 80 o achosion o ddiagnosis 'coll' mewn practis nodweddiadol o 10,000 o gleifion, yn y drefn honno. Gall practis o'r fath fod â mwy na 400 o achosion o ddiagnosis coll ar draws y 17 o gyflyrau a astudiwyd. Ni wnaeth ymchwilyr ganfod unrhyw wahaniaethau amlwg yn nodweddion demograffig-gymdeithasol y cleifion a gafodd ddiagnosis cyn ac ar ôl y pandemig megis oedran, rhyw ac ethnigrwydd.

Bydd ail gam ymchwil yn adeiladu ar y gwaith hwn i ymchwilio i effaith COVID-19 ar batrymau defnyddio adnoddau gofal iechyd ar gyfer cleifion sydd â chyflyrau hirdymor.

Dywedodd Cyd-gyfarwyddwr Banc Data SAIL Databank, yr Athro Ronan Lyons:

“Mae Banc Data SAIL Databank wedi bod yn adnodd hanfodol ar gyfer monitro cyfraddau trosglwyddo ac effeithiau hirdymor y pandemig ers i ni weld yr achosion cyntaf. Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae timau yn SAIL a Gwyddor Data Poblogaeth, ynghyd ag eraill ar draws cyrff iechyd cyhoeddus yng Nghymru, wedi gweithio'n galed i ddatblygu ein rhwydwaith a'r galluoedd sydd wedi ein galluogi i ymateb i'r argyfwng iechyd hwn yn gyflym ac yn effeithiol. Fel rhan o'r cydweithrediad Cymru'n Un hwn, mae llawer mwy gennym i'w wneud wrth i ni barhau i fonitro ac asesu effaith COVID-19 ledled Cymru a sicrhau ein bod ni'n dysgu o'r profiad hwn a gwella ymhellach ein hymdrech ar y cyd a'n gwbyodaeth ar gyfer argyfyngau iechyd yn y dyfodol”

Darllenwch y cyhoeddiad llawn yma: <https://bjgp.org/content/73/730/e332>

PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU ALLWEDDOL

Astudiaeth newydd yn datgelu'r ffactorau sy'n gwneud i ferched beichiog yng Nghymru deimlo'n betrusgar ynghylch cael brechlyn COVID-19

Yn ôl astudiaeth newydd, roedd menywod iau, rhai heb aml-forbidrwydd (dau gyflwr cronig neu fwy), menywod sy'n ysmegu neu sydd wedi ysmegu yn y gorffennol, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn llai tebygol o gael y brechlyn COVID-19 yn ystod bechiogrwydd. Gwnaeth yr astudiaeth, a gynhaliwyd gan y tîm Ganwyd yng Nghymru yn y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Lles y Boblogaeth, ddadansoddi data o 25,111 o fenywod beichiog yng Nghymru rhwng 13 Ebrill 2021 a 31 Rhagfyr 2021.

Defnyddiodd yr astudiaeth garfan hon ddata poblogaeth cysylltiol, diennw, lefel unigolyn a gasglwyd fel mater o drefn ym Manc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL). Canolbwyntiodd yr ymchwil ar dri ffactor risg sylweddol sef aml-forbidrwydd, statws ysmegu, a bechiogrwydd, a oedd yn gysylltiedig â chanlyniadau mwy difrifol yn dilyn haint COVID-19. Nod yr astudiaeth oedd edrych i weld sut roedd y ffactorau hyn, ynghyd â nodweddion demograffig fel oedran, grŵp ethnig ac ardal ddifreintiedig, yn dylanwadu ar betruster ymhlith menywod beichiog yng Nghymru.

Canfyddiadau Allweddol

- Roedd menywod ag aml-forbidrwydd 1.12 gwaith yn fwy tebygol o gael y brechlyn.
- Roedd y niferoedd a manteisiodd ar y brechlyn yn sylweddol is ymhlith y rhai sy'n ysmegu neu sydd wedi ysmegu yn y gorffennol.
- Roedd y niferoedd a manteisiodd ar y brechlyn yn is hefyd ymhlith menywod beichiog yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Roedd menywod 30 oed neu hŷn yn fwy tebygol o gael y brechlyn yn ystod bechiogrwydd.
- Yn arwyddocaol, roedd menywod beichiog ag iselder ychydig yn fwy tebygol o gael eu brechu o gymharu â'r rhai heb iselder.

Dywedodd Mohamed Mhereeg, Ymchwilydd Ganwyd yng Nghymru:

“Mae'n ein hastudiaeth yn rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i'r rhesymau pam y gall rhai menywod beichiog deimlo'n betrusgar ynghylch cael brechlyn COVID-19. Mae'n hanfodol datblygu strategaethau wedi'u teilwra i gynyddu cyfraddau derbyn brechlyn COVID-19 ac i sicrhau bod llai o betruster. Gall fod angen dull mwy penodol o ymdrin â brechiadau er mwyn cyrraedd grwpiau penodol fel pobl iau, ysmygyr a chyn-ysmygyr, unigolion iach, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd lefel uwch o amddifadedd.”

PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU ALLWEDDOL

Effeithiau pandemig Covid-19 ar iechyd meddwl plant sy'n hynod agored i niwed yn glinigol

Mae Cypolwg Data newydd gan YDG Cymru yn archwilio effaith pandemig Covid-19 ar iechyd meddwl plant sy'n hynod agored i niwed yn glinigol neu sy'n byw gyda phobl sy'n hynod agored i niwed yn glinigol yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2020, cynghorwyd pobl yr ystyriwyd eu bod yn hynod agored i niwed yn glinigol (CEV) i salwch difrifol neu farwolaeth o Covid-19 i 'gysgodi' gartref, gan aros dan do a lleihau cyswllt ag eraill.

Edrychodd yr astudiaeth ar effaith pandemig Covid-19 ar y defnydd o wasanaethau gofal iechyd ar gyfer gorbryder neu iselder yng Nghymru, ar gyfer plant CEV, plant sy'n byw gyda pherson CEV a phlant yn y boblogaeth gyffredinol

Fe wnaeth yr astudiaeth ganfod, yn 2019-20, fod plant CEV bron i ddwywaith yn fwy tebygol o fod â hanes o orbryder neu iselder o gymharu â phlant yn y boblogaeth gyffredinol ac, yn 2020-21, fod plant CEV dros dair gwaith yn fwy tebygol o fod â hanes o orbryder neu iselder o gymharu â phlant yn y boblogaeth gyffredinol.

Fodd bynnag, dros yr amser hwn, dim ond ychydig o gynnydd a welwyd mewn achosion o orbryder neu iselder ymhlith plant CEV (o 4.17% i 4.22%). Fodd bynnag, gwelwyd llai o achosion ymhlith plant yn y boblogaeth gyffredinol (o 2.19% i 1.39%).

Daeth y tîm ymchwil i'r casgliad bod y risg uwch ymhlith plant CEV wedi'i ysgogi'n bennaf gan y lleihad mewn cyflwyniadau i wasanaethau gofal iechyd gan blant yn y boblogaeth gyffredinol yn ystod y pandemig, yn hytrach na chynnydd amlwg mewn cyflwyniadau ar gyfer gorbryder neu iselder ymhlith plant CEV.

Am fwy o wybodaeth: <https://popdatasci.swan.ac.uk/cy/effects-of-the-covid-19-pandemic-on-the-mental-health-of-children-that-are-clinically-extremely-vulnerable/>

PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU ALLWEDDOL

Astudiaeth newydd yn edrych ar sut mae amddifadedd ardal leol yn dylanwadu ar gyfleoedd bywyd plant mewn tlodi yng Nghymru

Mae astudiaeth ymchwil ddiweddar, a arweiniwyd gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Abertawe, yn nodi y gallai gwelliannau ar lefel gymunedol fel cynyddu diogelwch, cysylltedd a chyflogaeth helpu gyda chyrhaeddiad addysgol ac iechyd meddwl plentyn a lleihau ymddygiadau cymryd risg

Mae byw mewn tlodi parhaus yn cael effaith andwyol ar iechyd plentyn a'i ganlyniadau gwybyddol ac ymddygiadol. Mae plentyn sy'n cael ei fagu mewn ardal ddifreintiedig hefyd yn fwy tebygol o gael llai o fynediad at wasanaethau a chymorth. Gall hyn fod â goblygiadau hirdymor i'r plentyn drwy gydol ei fywyd a'i roi mewn mwy o risg o gael canlyniadau iechyd a chymdeithasol niweidiol. Nod yr astudiaeth, a arweiniwyd gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Lles y Boblogaeth ar y cyd ag Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (YDG Cymru) a Health Data Research UK (HDRUK), oedd archwilio ffactorau yn yr ardal leol a all helpu plentyn i oresgyn effaith negyddol tlodi.

Roedd yr astudiaeth yn cynnwys 159,131 o blant oedd yn byw yng Nghymru, oedd wedi cwblhau eu harholiadau 16 oed, Cyfnod Allweddol 4, rhwng 2009 a 2016, ac a oedd a chofnod dilys o Brydau Ysgol am Ddim. Defnyddiwyd y ddarpariaeth Prydau Ysgol am Ddim fel dangosydd amddifadedd ar lefel aelwyd. Nodwyd y cyfranogwyr hyn drwy gysylltu Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (cofrestr weinyddol Cymru gyfan ar gyfer pob unigolyn sydd â meddyg teulu) a setiau data addysg ym Manc Data SAIL.

Gwnaeth yr ymchwilwyr ganfod y canlynol

- Roedd 22% o blant sy'n byw mewn tlodi (ac sy'n cael prydau ysgol am ddim) yn gwneud yn dda ar y cyfan o gymharu â 54.9% o blant nad oeddent yn cael prydau ysgol am ddim.
- Mae plant sy'n byw mewn tlodi mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd difreintiedig yn llawer mwy tebygol o wneud yn dda o gymharu â'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Mae plant sy'n byw mewn tlodi mewn ardaloedd lle mae mwy o ddiogelwch gymunedol, lle mae'r incwm cymharol yn uwch, a lle mae gwell mynediad at wasanaethau, yn fwy tebygol o wneud yn dda o gymharu â'u cyfoedion.

Darllenwch y cyhoeddiad llawn yn

<https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S2352827323000356?via%3Dihub>

PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU ALLWEDDOL

Bydd cyswllt rhwng carfanau yn atgyfnerthu ymchwil i ddiabetes a chlefyd y galon

Bydd ymchwilwyr Gwyddor Data Poblogaeth yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe yn defnyddio cyllid Canolfan Gwyddor Data British Heart Foundation i fynd ati ar y cyd i ddatblygu llwyfan diogel a dibynadwy ym Manc Data SAIL gyda ffocws ar gefnogi carfanau ymchwil i ddiabetes ac ymchwil gardiofasgwlaidd Nod y llwyfan newydd yw darparu ffordd i garfanau seiliedig ar glefydau gysylltu eu data ymchwil â gwybodaeth gofal iechyd arferol i gyfoethogi'r wybodaeth a gesglir.

Mae ymchwil yn rhoi pobl mewn carfanau dros gyfnod hir o amser, gan gasglu gwybodaeth fanwl am gyfranogwyr ar draws amrywiaeth eang o fesurau, a allai gynnwys statws economaidd-gymdeithasol, oedran, canlyniadau profion gwaed, sganio, a geneteg. Yn wahanol i garfanau poblogaeth, mae carfanau seiliedig ar glefydau yn recriwtio pobl sydd â chlefyd neu gyflwr penodol, neu sy'n wynebu risg uchel o ddatblygu clefyd neu gyflwr.

Mae carfanau clefydau sy'n gysylltiedig â data iechyd a gesglir gan y GIG fel mater o drefn, er enghraifft, cofnod ysbyty cyfranogwr, yn rhoi cipolwg gwerthfawr oherwydd bod modd dilyn pobl yn yr hirdymor ar ôl iddynt gymryd rhan mewn astudiaeth, sy'n golygu bod modd astudio'r driniaeth, y dulliau o reoli clefyd a'i ganlyniadau y tu hwnt i'r amser y gwnaethant gymryd rhan. Mae'r cysylltiad hefyd yn caniatáu i ymchwilwyr gyfeirio at gofnodion a wnaethpwyd cyn dechrau'r clefyd. Mae hyn yn golygu bod ymchwilwyr mewn safle unigryw i nodi digwyddiadau cynnar neu newidiadau ym mioleg person a allai fod wedi cyfrannu at ddatblygiad y clefyd hwnnw. Mae hyn yn sicrhau bod modd cael gwell dealltwriaeth o achos clefyd ac ymchwilio i'r ffordd orau o'i atal.

Bydd tîm datblygu'r llwyfan yn caniatáu ar gyfer ffyrdd gwahanol o ddadansoddi data, ond bydd hefyd yn galluogi technegau uwch, er enghraifft, dysgu peirianyddol. Sicrheir bod y carfanau newydd a data cysylltiol cysylltiedig yn ddienw ac fe'u delir yn amgylchedd Banc Data SAIL sy'n diogelu preifatrwydd. Dim ond ymchwilwyr cymeradwy all gael gafael arnynt drwy broses Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth annibynnol SAIL.

Darllenwch fwy: <https://saildatabank.com/cohort-linkage-set-to-strengthen-diabetes-and-heart-disease-research/>

PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU ALLWEDDOL

Astudiaeth newydd yn datgelu bod mamau sydd wedi bod yn gysylltiedig ag achosion cyfraith gyhoeddus mewn llysoedd teulu 8 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi profi trais a cham-drin domestig.

Datgelodd astudiaeth, a arweiniwyd gan Brifysgol Abertawe, fod mamau sydd wedi bod yn gysylltiedig ag achosion cyfraith gyhoeddus mewn llysoedd teulu 8 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi profi trais a cham-drin domestig (DVA) o gymharu â mamau nad ydynt wedi bod yn gysylltiedig ag achos o'r fath. Gwyddys fod DVA yn cael effeithiau niweidiol hirdymor a phellgyrhaeddol ar iechyd a lles plant a theuluoedd ond ei fod yn cael ei danadrodd, gyda mynychder amcangyfrifedig o 5.5% yng Nghymru a Lloegr yn 2020.

Mae DVA yn fwy cyffredin ymhlith grwpiau yr ystyrir eu bod yn agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag achosion mewn llys teulu cyfraith gyhoeddus. Fodd bynnag, mae prinder tystiolaeth ynghylch y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â DVA ymhlith y rhai sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder teuluol.

Aeth yr astudiaeth, a arweiniwyd gan ymchwilyr Gwyddor Data Poblogaeth ym Mhrifysgol Abertawe, ati i gysylltu data cyfiawnder teuluol y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass Cymru) â chofnodion demograffig ac iechyd electronig ym Manc Data SAIL.

Aeth ymchwilyr ati i lunio 2 garfan ar gyfer yr astudiaeth: mamau a oedd wedi bod yn gysylltiedig ag achosion cyfraith gyhoeddus mewn llysoedd teulu (2011-2019) a grŵp o famau yn y boblogaeth gyffredinol nad oeddent wedi bod yn

gysylltiedig ag achosion cyfraith gyhoeddus mewn llysoedd teulu, wedi'u paru yn ôl nodweddion demograffig allweddol fel oedran ac amddifadedd.

Dyma'r hyn a ganfuwyd:

- Roedd mamau a oedd wedi bod yn gysylltiedig ag achosion cyfraith gyhoeddus mewn llysoedd teulu 8 gwaith yn fwy tebygol o fod â phrofiad o DVA wedi'i ddogfennu yn eu cofnodion gofal sylfaenol o gymharu â'r grŵp yn y boblogaeth gyffredinol.
- O fewn y garfan o famau a oedd wedi bod yn gysylltiedig ag achosion cyfraith gyhoeddus mewn llysoedd teulu, roedd y ffactorau risg ar gyfer DVA â'r effaith fwyaf sylweddol yn cynnwys:
 - Byw mewn ardaloedd prin eu poblogaeth
 - Mynychu adran frys yn sgil ymosodiad
 - Cyflyrau iechyd meddwl

Mae'r cynnydd wythblyg yn y risg o DVA yn pwysleisio'r ffaith bod unigolion sy'n gysylltiedig ag achosion cyfraith gyhoeddus mewn llysoedd teulu yn fwy agored i niwed. Gallai'r dystiolaeth bod byw mewn ardaloedd prin eu poblogaeth a mynychu adran frys yn sgil ymosodiad yn gysylltiedig â mwy o risg o DVA gael ei defnyddio i lywio polisi ac ymyriadau ymarfer sy'n targedu gwasanaethau atal a chymorth wedi'i deilwra i'r rhai sy'n profi DVA.

PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU ALLWEDDOL

Ymchwil arloesol yn archwilio sut mae trefn caffael clefydau yn effeithio ar ddisgwyliad oes

Mae ymchwil newydd a gyhoeddwyd yn The Lancet Public Health, yn archwilio sut mae clefydau sy'n cydfodoli yn datblygu dros amser a sut maent yn effeithio ar ganlyniadau cleifion ac adnoddau gofal iechyd. Edrychodd ymchwilwyr ar sut y gall clystyrau o gyflyrau iechyd corfforol a meddyliol (seicosis, diabetes, a methiant y galon) ddatblygu dros amser a'r effaith y gall hyn ei chael ar ddisgwyliad oes ar gyfer cleifion yng Nghymru, y DU.

Mae'r baich ar gleifion a'u darparwyr gwasanaethau iechyd yn gwaethygu wrth i nifer y cleifion â chyflyrau iechyd gwahanol gynyddu. Mae'r costau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig â hyn yn fwy na'r costau a ddisgwyliwr wrth reoli cyflyrau unigol, gyda chostau'n dyblu, fwy neu lai, ar gyfer pob cyflwr cronig ychwanegol.

Yn y DU, amcangyfrifir bod gan fwy na 25% o'r boblogaeth sy'n oedolion ddau gyflwr iechyd hirdymor neu fwy. Mae'r amcangyfrif hwn yn cynyddu i 65% ar gyfer y rhai sy'n hŷn na 65 oed, ac i 82% bron ar gyfer y rhai sy'n 85 oed neu'n hŷn.

Mae gan hyn oblygiadau mawr i'r GIG a darparwyr Gofal Cymdeithasol. Mae'r ymchwil hon yn cefnogi dull wedi'i dargedu o atal neu ohirio cyflyrau iechyd lluosog ar gyfer cynllunio gofal iechyd yn effeithiol yn y dyfodol. Dyma'r astudiaeth gyntaf sy'n archwilio sut mae'r drefn y mae cleifion yn datblygu sawl cyflwr iechyd cronig yn effeithio ar eu disgwyliad oes.





Defnyddiodd y tîm Fanc Data SAIL i ddadansoddi canlyniadau mwy na 1.5 miliwn o gleifion a chanfuwyd bod trefn ac amseru rhoi diagnosis o'r clefydau hyn yn cael effaith bwysig ar ddisgwyliad oes claf. Gan ddefnyddio'r data hwn, roedd ymchwilyr yn gallu cynhyrchu modelau ystadegol i archwilio taflwybrau a chanlyniadau'r cyflyrau hyn mewn dilyniannau datblygu gwahanol. Datgelodd hyn fod cysylltiad arwyddocaol rhwng trefn caffael cyflyrau a disgwyliad oes claf. Cafodd y dadansoddiadau ystadegol hyn eu haddasu ar gyfer oedran, rhyw, a lefelau amddifadedd ardaloedd.

Roedd gan unigolion a ddatblygodd diabetes, seicosis, a methiant y galon, yn y drefn honno, ddisgwyliad oes byrrach na phobl a ddatblygodd yr un tri chyflwr mewn trefn wahanol.

Gallai'r modelau hyn gael eu defnyddio i helpu i nodi'r gofal priodol ar gyfer y claf a'r dull priodol o reoli'r gofal hwnnw i gleifion, clinigwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau gofal iechyd, gan arwain at well canlyniadau i gleifion a llai o gostau gofal iechyd.

Mae'r modelau hyn yn rhoi fframwaith hyblyg i'r gymuned ymchwil ddadansoddi taflwybrau o ran datblygiad clefydau eraill a'u heffeithiau cysylltiedig ar ganlyniadau i gleifion. Mae hyn yn helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal iechyd drwy asesu ffactorau risg, nodi cyfleoedd sgrinio, a thargedu ymyriadau ar gyfer llunio polisiau a gwneud penderfyniadau gofal iechyd.

Cyhoeddiad llawn yma:

[https://www.thelancet.com/journals/lanpub/article/PIIS2468-2667\(23\)00098-1/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/lanpub/article/PIIS2468-2667(23)00098-1/fulltext)

PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU ALLWEDDOL

Astudiaeth newydd yn dangos pŵer cysylltu data gofal iechyd a data'r heddlu i nodi pobl sy'n agored i niwed

Mae cysylltu data gofal iechyd a data'r heddlu wedi datgelu bod modd nodi unigolion sy'n hynod agored i niwed cyn i'r heddlu ddod yn gysylltiedig. □ Nawr, □ mae astudiaeth newydd gan ymchwilyr ym Mhrifysgol Abertawe yn dweud y gallai rannu data a chysylltu data helpu i leihau nifer y galwadau y caiff yr heddlu eu galw iddynt a derbyniadau meddygol brys yn y dyfodol. □

Edrychodd y tîm ymchwil ar ddata hanesyddol er mwyn sefydlu'r ffactorau sy'n gysylltiedig â □ rhagweld derbyniad meddygol brys yn dilyn cyflwyno atgyfeiriad diogelu'r cyhoedd ar gyfer y sawl sy'n cyflawni trais domestig. □

Roedd y grŵp a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn cynnwys 8,709 o drigolion sy'n byw yn Ne Cymru a gafodd atgyfeiriad diogelu'r cyhoedd rhwng 12/08/2015 a 31/03/2020. □ Ffurfiwyd dau grŵp; □ y dioddefwyr hynny a brofodd derbyniad meddygol brys neu a fu farw o fewn blwyddyn i'r atgyfeiriad diogelu'r cyhoedd, □ a'r rhai na wnaethant brofi hynny. □ Fel rhan o'r ymchwil, □ defnyddiodd y tîm ddadansoddiad coeden penderfyniadau hefyd i nodi ffactorau sy'n gysylltiedig â'r risg y bydd dioddefwr yn cael derbyniad brys yn y dyfodol. □

Ddeuddeg mis ar ôl cyflwyno'r atgyfeiriad diogelu'r cyhoedd cychwynnol, □ roedd 3,544 o ddioddefwyr allan o'r 8,709 a gymerodd ran, □ wedi cael eu derbyn i'r adran damweiniau ac achosion brys, □ gyda chyfanswm o 48 o farwolaethau. □

**'...gallai cysylltu
data helpu i
sicrhau bod yr
heddlu yn cael
eu galw i lai o
alwadau a bod
llai o
dderbyniadau
meddygol brys
yn y dyfodol.'** □





Ymhlith y ffactorau hollbwysig oedd yn gysylltiedig â derbyniad meddygol brys dioddefwr o fewn 12 mis i'r atgyfeiriad diogelu'r cyhoedd roedd:

- Wedi mynychu gwasanaethau gofal iechyd brys mwy na 3 gwaith mewn tair blynedd;
- Bod yn iau na 19 oed, neu'n hŷn na 70;
- Ysmygu sigarêts, neu'n cael cyngor ar roi'r gorau i ysmygu (ymddygiad caethiwus);
- Wedi cael ei anafu yn y fan a'r lle;
- Cyffuriau wedi'u rhagnodi ar gyfer y system nerfol ganolog;
- Cyffuriau wedi'u rhagnodi i drin heintiau; Beichiogrwydd yn y cartref.

Canfu'r tîm fod edrych ar ddata gofal iechyd o un flwyddyn i dair blynedd cyn yr atgyfeiriad diogelu'r cyhoedd wedi sefydlu mai derbyniadau brys oedd y ffactor risg mwyaf sylweddol i'r dioddefwyr hynny a fydd yn profi derbyniadau brys yn y dyfodol. Gallai'r dioddefwyr gael eu rhannu'n grwpiau â risg amrywiol; roedd y grŵp â'r risg fwyaf yn dra hysbys i'r gwasanaethau gofal iechyd brys, roedd y rhai nesaf yn llai hysbys i'r gwasanaethau gofal iechyd brys, ond roeddent yn hysbys i'r heddlu, ac nid oedd y grŵp olaf yn hysbys i'r gwasanaethau gofal iechyd na'r heddlu ond roeddent yn hysbys i'w meddygon teulu.

Cyhoeddiad llawn yma:

[https://www.thelancet.com/journals/lanpub/article/PIIS2468-2667\(23\)00126-3/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/lanpub/article/PIIS2468-2667(23)00126-3/fulltext)

'...y ffactor risg mwyaf sylweddol i'r dioddefwyr hynny a fydd yn profi derbyniadau brys yn y dyfodol.'



PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU ALLWEDDOL

Prosiect ymchwil newydd i gysylltu data tai, data gweinyddol a data iechyd ledled Cymru, Lloegr a'r Alban

Disgwylir i brosiect newydd Healthy Households, a ariennir gan ADR UK, drawsnewid y ffordd y mae ymchwilwyr yn dadansoddi data cartrefi yn y DU. Nod y prosiect yw creu set ddata gynhwysfawr sy'n cysylltu data tai gyda data gweinyddol a data iechyd ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban

PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU ALLWEDDOL

Astudiaeth yn dangos bod mwy o ddefnydd o wasanaethau gofal iechyd ymhlith babanod sy'n gysylltiedig ag achos cyfiawnder teuluol yng Nghymru

Bu'r astudiaeth, y gyntaf o'i math yng Nghymru, yn archwilio'r defnydd o wasanaethau gofal iechyd ymhlith babanod o dan flwydd oed a oedd yn destun achos Gofal a Goruchwyllo Adran 31 – proses gyfreithiol a gychwynnir pan fydd plentyn yn wynebu niwed posibl gan rieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal.

Caniataodd argaeledd data iechyd electronig ar lefel yr unigolyn ar gyfer y plant yng Nghymru, ynghyd â data cyfoethog a oedd yn cynnwys gwybodaeth am achosion cyfiawnder teuluol, y tîm ymchwil archwilio iechyd babanod a oedd yn gysylltiedig ag achos gofal, o gymharu â grŵp arall o fabanod yn y boblogaeth gyffredinol nad oeddent yn gysylltiedig ag achos o'r fath.

Canfu'r tîm fod gan y babanod yn y grŵp achosion gofal nifer uwch o ddigwyddiadau gofal iechyd ar draws pob lleoliad, gan gynnwys ymweliadau â meddyg teulu, achosion o fynychu'r adran brys, a derbyniadau i'r ysbyty. Roedd y gwahaniaeth hwn yn fwyaf amlwg ar gyfer derbyniadau brys i'r ysbyty, lle roedd babanod a oedd yn gysylltiedig ag achosion gofal dros bedair gwaith yn fwy tebygol o gael eu derbyn na'r rhai yn y grŵp cymharu. Anafiadau a digwyddiadau gwenwyno oedd y rhesymau mwyaf cyffredin ar gyfer derbyniadau brys.

Dywedodd Dr Ian Farr, Uwch Swyddog Ymchwil Gwyddor Data Poblogaeth ym Mhrifysgol Abertawe a'r prif awdur:

“Pan gaiff plant eu rhoi mewn gofal, maent yn aml yn profi canlyniadau iechyd gwaeth na'u cyfoedion. Nod ein hastudiaeth oedd deall a yw'r anghydraddoldeb iechyd hyn yn bodoli hyd yn oed cyn i blant fynd i ofal, o ganlyniad, o bosibl, y'r amgylchiadau a arweiniodd at yr achos gofal yn y lle cyntaf.”

Tynnodd ein canfyddiadau sylw at y ffaith bod babanod sy'n gysylltiedig ag achosion cyfiawnder teuluol yn fwy agored i niwed. Mae'n hanfodol deall eu hanghenion gofal iechyd ar gyfer datblygu gwasanaethau cymorth gwell i'r teuluoedd hyn.”

Ychwanegodd Lucy Griffiths, Athro Epidemioleg Bediatrig Gwyddor Data Poblogaeth ym Mhrifysgol Abertawe:

“Unwaith eto, mae'r astudiaeth hon yn dangos pŵer cysylltu data i lywio ein dealltwriaeth o nodweddion ac amgylchiadau plant ifanc iawn sy'n dod i mewn i'r system ofal. Mae'r ddealltwriaeth hon yn hanfodol ar gyfer darparu cymorth gwell i deuluoedd.”

I ddarllen y cyhoeddiad llawn: <https://ijpds.org/article/view/2362>

PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU ALLWEDDOL

Banc Data SAIL a Research Data Scotland (RDS) yn ffurfio partneriaeth gydweithredol

Ers pandemig COVID, mae mwy o alw wedi bod gan y gymuned ymchwil am fynediad i ddata mwy o faint am y boblogaeth, ac am i fynediad at ddata a ddelir yn y gwahanol Amgylcheddau Ymchwil yr Ymddiriedir Ynddynt (TREs) ledled y DU fod yn brofiad mwy cydgysylltiedig a di-dor. Mae SAIL ac RDS yn gweithio gyda data sy'n ymwneud yn bennaf â phoblogaethau craidd cymharol fach (Cymru a'r Alban yn y drefn honno). Er mwyn parhau i fodloni gofynion y gymuned ymchwil, mae'n bwysig eu bod yn gweithio gyda'i gilydd, a chyda TREs eraill ledled y DU, i ddarparu gwasanaeth mwyfwy cydgysylltiedig, o ran gwneud cais am fynediad at ddata, a darparu data. Mae gan SAIL ac RDS gydberthynas waith agos yn barod ac maent wedi cydweithio ar nifer o brosiectau ffederasiynau data a fydd yn sail naturiol ar gyfer y bartneriaeth hon

Nod cyffredinol y bartneriaeth hon yw cydweithio lle y bo'n briodol i gynorthwyo sefydliadau i gyflawni eu nodau a'u hamcanion. Yr amcanion penodol yw:

- Rhannu gwybodaeth ac arferion da (e.e. mewn perthynas â strwythurau sefydliadol, fframweithiau llywodraethu, arferion gweithredu ac ati)
- Dangos y gwaith da sy'n cael ei wneud o ran ymchwil data gan ddefnyddio data sector cyhoeddus yn y gwledydd datganoledig, eirioli drosto, a dangos yr hyn sydd ei angen i'w ddatblygu ymhellach a'i ariannu
- Ymchwilio i opsiynau ar gyfer cydweithio'n agosach (e.e. hwyluso mynediad wedi'i ffedereiddio at ddata ar draws y ddau sefydliad, datblygu modelau busnes ar y cyd neu fodolau busnes sy'n gefnogol i'r ddau sefydliad ac ati)
- Ymchwilio i opsiynau ar gyfer sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau datblygu gydweithredol

Dechreuodd y bartneriaeth ar 1 Ion 2024 a disgwylir iddi bara o leiaf 3 blynedd



PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU YCHWANEGOL

Ymchwilydd Banc Data SAIL yn trafod COVID-19 a chyflyrau iechyd hirdymor gyda'r cyfryngau lleol

Eisteddodd Rowena Bailey, Uwch Swyddog Ymchwil ac Ystadegydd a rhan o dîm Health Data Research UK sy'n gweithio gyda Banc Data SAIL, i lawr gyda That's TV South Wales i drafod yr effaith y mae pandemig COVID-19 wedi'i chael ar bobl â chyflyrau iechyd hirdymor. Un o'r prif faterion y tynnodd sylw ato oedd y cymorth sydd ei angen ar feddygfeydd i roi mwy o gymorth i'r grŵp hwn sy'n wynebu risg.

Banc Data SAIL yn dechrau gweithio gyda Chanolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru


O fis Ebrill 2023, dechreuodd Banc Data SAIL weithio gyda Chanolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Bydd Banc Data SAIL yn helpu i adolygu, crynhoi a chynhyrchu adroddiadau ar y dystiolaeth ymchwil sydd ar gael ynghylch COVID-19. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod tystiolaeth ymchwil ar gael yn hawdd i'r rhai sydd ei hangen, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y GIG, Gofal Cymdeithasol, a'r cyhoedd, ac yn sicrhau bod y sylfaen tystiolaeth ymchwil yng Nghymru yn gyfredol ac yn berthnasol.

<https://saildatabank.com/wales-covid-19-evidence-centre-review-2021-2023/>

Cyfarwyddwr Banc Data AIL yn cael ei wahodd i siarad yng Nghynhadledd y Gymdeithas Frenhinol

Ym mis Mehefin, gofynnwyd i'r Athro Ronan Lyons siarad ar ran Cymdeithas Ddysgedig Cymru yng nghyfarfod Holl Academiâu Ewrop yn y Gymdeithas Frenhinol ar "Argyfyngau a phwysigrwydd ymchwil: Pa mor barod y gallwn ni fod?".

Siaradodd yr Athro Lyons fel rhan o banel a ddaeth ynghyd i drafod rôl hanfodol data, gan gynnwys ffonellau data annhraddodiadol fel data symudedd a gynhyrchir gan seilwaith telathrebu ac arolygon dinasyddion, wrth ymateb i drychinebau a rheoli argyfyngau. Yn ogystal, rhannwyd canfyddiadau deialog gyhoeddus y Gymdeithas Frenhinol ar greu systemau data gwydn a dibynadwy a'i hadroddiad ar rôl technolegau sy'n gwella preifatrwydd wrth lywodraethu data ac ymgymryd â dadansoddi cydweithredol.



PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU YCHWANEGOL

Cenhedlaeth newydd o fabanod i ymuno â'r astudiaeth datblygiad plant gyntaf yn y DU ers dau ddegawd

Bydd miloedd o fabanod a rhieni yn cymryd rhan mewn astudiaeth carfanau geni newydd yn y DU, sy'n anelu at daflu goleuni ar yr heriau a wynebir gan deuluoedd wrth iddynt ddod allan o bandemig Covid-19 a cheisio ymdopi â'r argyfwng costau byw.

Bydd yr astudiaeth yn dilyn plant a anwyd yn 2022, yn ystod eu blynyddoedd cynnar a thu hwnt, o bosibl, gan ddarparu dealltwriaeth newydd hanfodol o'u hiechyd a'u datblygiad. Bydd Generation New Era yn ymuno â'r portffolio cyfoethog o astudiaethau carfanau geni yn y DU, sy'n dilyn bywydau pobl a anwyd yn 1946, 1958, 1970 a 2000-02.

Bydd y dystiolaeth a gesglir yn ateb cwestiynau gwyddonol a pholisi pwysig, a fydd yn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant ac yn gwella bywydau teuluoedd â phlant ifanc ledled y DU.

<https://popdatasci.swan.ac.uk/new-generation-of-babies-to-join-first-uk-study-of-child-development-in-two-decades/>

Banc Data SAIL i gael dyfarniad cyllid i wella tryloywder wrth gael mynediad at ddata iechyd

Mae Banc Data SAIL yn un o 19 o brosiectau a fydd yn elwa ar fenter newydd i wella tryloywder prosesau mynediad at ddata iechyd ar gyfer ymchwilwyr a'r cyhoedd. Mae'r fenter gyllido hon, a lansiwyd gan Health Data Research UK (HDR UK) ac a gefnogir gan y Cyngor Ymchwil Feddygol (MRC), yn gam pwysig ymlaen wrth wella tryloywder ynghylch sut y ceir mynediad at ddata a sut y caiff data ei ddefnyddio er mwyn helpu i ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd a'i chynnal. Nod y fenter hon yw sicrhau bod ymchwilwyr a'r cyhoedd yn cael gwybodaeth glir a chynhwysfawr am y gweithdrefnau ar gyfer cael mynediad at setiau data iechyd at ddibenion ymchwil.

Mae Banc Data SAIL wedi cael cyllid i ddatblygu animeiddiadau fideo llawn gwybodaeth a fydd yn addysgu ac yn hysbysu'r cyhoedd am y broses o gael mynediad at ddata, gan bwysleisio sut mae mesurau preifatrwydd drwy ddylunio cadarn SAIL yn sicrhau defnydd diogel drwy'r defnydd priodol o iaith a fydd yn helpu i wella cyfathrebu ar yr effaith y mae ymchwil data iechyd yn ei chael wrth wella ac achub bywydau.

PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU YCHWANEGOL

Yr Athro David Ford, Cyd-gyfarwyddwr Banc Data SAIL, yn ymuno â Bwrdd Cynghori Data Cancer ResearchUK

Mae'r Athro David Ford wedi cael ei benodi i Fwrdd Cynghori Data Cancer Research UK. Gyda'i gefndir helaeth mewn gwybodeg iechyd a'i arbenigedd mewn Gwyddor Data Poblogaeth, mae'r Athro Ford yn cael ei gydnabod yn eang fel awdurdod blaenllaw yn y maes.

Mae'r Bwrdd Cynghori Data yn hollbwysig wrth lywio gwaith Cancer Research UK mewn ymchwil canser a lywir gan ddata. Mae'r Athro Ford yn ymuno â'r bwrdd presennol o 11 o arbenigwyr rhyngwladol, gan ddod â phersbectif unigryw ar wyddor data, gan gynnwys tueddiadau a datblygiadau.

Banc Data SAIL yn cymryd rhan yng Nghynhadledd Precision Public Health Asia 2023

Cynhaliwyd Cynhadledd Precision Public Health Asia 2023, a drefnwyd ar y cyd gan Ysgol Iechyd Cyhoeddus Saw Swee Hock Prifysgol Genedlaethol Singapore a Chymdeithas Precision Public Health Asia, ar 12 i 14 Gorffennaf yn Singapore, gyda mwy na 500 o siaradwyr pwysig a chyfranogwyr o dros 19 o wledydd yn y rhanbarth yn cymryd rhan. Rhoddodd Cyfarwyddwr SAIL, yr Athro David Ford, brif araith ar "Galluogi Rhannu Data gyfer Ymchwil, Gwybodaeth a Budd Cyhoedd", gan bwysleisio pwysigrwyd cysylltu data, preifatrwydd drwy ddylunio chyfranogiad y cyhoedd drwyddi draw gyfer Banc Data SAIL, wedi'i bweru ga dechnoleg SeRP fewnol.

Ganwyd yng Nghymru – Carfan Genedigaethau genedlaethol gynhwysfawr sy'n galluogi ymchwil iechyd gydol oes

Mae ymchwilwyr o'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Lles y Boblogaeth wedi datblygu carfan genedigaethau unigryw sy'n anelu at wella iechyd a lles teuluoedd sy'n cael eu magu yng Nghymru. Mae carfanau geni, sy'n cynnwys olrhain grŵp o unigolion sydd wedi'u geni oddeutu'r un amser dros gyfnod estynedig, yn caniatáu i ymchwilwyr gael cipolwg gwerthfawr ar eu datblygiad, eu profiadau a'u canlyniadau iechyd. Mae Ganwyd yng Nghymru, a sefydlwyd yn 2020, yn cysylltu data mamolaeth, data rheini data plant gan greu carfan ledled y wlad o'r cyfrifiad cymdeithasol Nghymru yn gwerthfawr ar gyfer ymchwil cwrs bywyd

<https://popdatasci-wales-cohort>

PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU ALLWEDDOL

Banc Data SAIL Databank yn rhan o grŵp ymchwil sydd wedi cael £4.3 miliwn ar gyfer ymchwil flaenllaw i salwch meddwl difrifol

Mae Hwb Ymchwil Llwyfan Iechyd Meddwl arloesol, a fydd yn gwella dealltwriaeth o salwch meddwl difrifol a'r diagnosis a'r driniaeth a roddir, wedi cael grant o £4.3 miliwn gan UK Research & Innovation (UKRI) a'r Cyngor Ymchwil Feddygol (MRC).

Bydd Hwb De Cymru a De-orllewin Lloegr (SW²) yn dwyn ynghyd rwydwaith rhyngddisgyblaethol o ymchwilwyr blaenllaw a phobl sydd â phrofiad bywyd o salwch meddwl difrifol er mwyn cyflymu ymchwil effeithiol i gyflyrau meddwl difrifol, a'r driniaeth a roddir ar eu cyfer.

Mae salwch meddwl difrifol fel sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol ac anhwylder sgitsoffeithiol yn effeithio ar tua 3% boblogaeth y DU ac yn costio tua £29 biliwn y flwyddyn i'r DU. Dangoswyd eu bod yn gallu lleihau disgwyliad oes 10-20 mlynedd ar gyfartaledd, ac maent yn gosod baich enfawr ar gleifion, eu gofawr, a'r gymuned ehangach. Fel arfer, mae salwch meddwl difrifol yn cael effaith hirdymor ar allu pobl i weithredu, ac mae o leiaf 25% o bobl yn profi symptomau gwanhaol nad ydynt yn ymateb i driniaeth.



CYNNWYS AC YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

Mae Panel Defnyddwyr sefydledig Banc Data SAIL bellach yn ei 13eg blwyddyn ac mae'n parhau i fod wrth wraidd ein hymrwymiad i ymgysylltu â'r cyhoedd a'u cynnwys yn ein gwaith. Erbyn hyn, mae'r Panel yn cynnwys 20 o bobl yn sgil menter recriwtio a gynhaliwyd ar ddiwedd 2023, ac mae bob amser ar agor i aelodau ychwanegol er mwyn cynnal y galw uchel am gyfarfodydd. Mae'r Panel Defnyddwyr yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn erbyn hyn oherwydd y galw gan ymchwilwyr a disgwylir y bydd yn cyfarfod yn amlach wrth fynd ymlaen.

Mae holl aelodau'r Panel yn aelodau o'r cyhoedd o gymunedau a chefnidiroedd amrywiol. Gwahoddir aelodau'r Panel i gynorthwyo mewn nifer o feysydd o broses Banc Data SAIL. Maent yn rhoi help a chynghor i ymchwilwyr ddatblygu syniadau ar gyfer prosiectau a llunio ceisiadau am gyllid drwy sicrhau bod pob darn o ymchwil yn cynnwys cynllun clir ar gyfer sicrhau'r budd mwyaf i'r cyhoedd. Maent hefyd yn cynghori ymchwilwyr ar arferion da wrth ledaenu canfyddiadau ymchwil

Mae rhai aelodau o'r Panel Defnyddwyr hefyd yn aelodau o'r Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth, corff annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau i ddefnyddio data SAIL.

Mae cyfarfodydd y Panel yn parhau i gael eu cynnal ar-lein, sy'n gwella cynwysoldeb ac yn galluogi ymchwilwyr o bob rhan o'r DU i ymuno â'r cyfarfodydd heb iddynt orfod teithio'n bell na thalu costau teithio.



CYNNWYS AC YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

Yn ogystal â'r cymorth ad hoc i ymchwilwyr a ddisgrifir uchod, rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, bu'r Panel Defnyddwyr yn cefnogi sawl menter allweddol. Ymhlith y gwaith ymchwil a gefnogwyd mae'r canlynol:

- **Data and Analytics Research Environments (DARE) UK:** TELEPORT - <https://dareuk.org.uk/teleport-unlocking-data-access-barriers-to-enhance-uk-wide-data-research/>
- **Laborody Data Rhwydweiddiol Cymru (NDL) Cymru:** Nodi gofalwyr di-dâl drwy ddata awdurdod lleol a gofal sylfaenol mewn ardaloedd lleol ledled Cymru; deall anghydraddoldebau iechyd - <https://phw.nhs.wales/news/novel-insights-show-the-potential-of-data-across-health-and-care-systems-to-inform-support-for-unpaid-carers-in-wales/>
- **Dementias Platform UK (DPUK):** Datblygu Mynegai Risg Preifatrwydd Deallusrwydd Artiffisial i Lywio Penderfyniadau 'Ffeilio Allan' - <https://zenodo.org/records/11045640>
- **Serenity:** Grymuso Cleifion Canser i Wneud y Defnydd Gorau o Therapi Wrth-Thrombotig ar Ddiwedd eu Hoes - <https://saildatabank.com/wales-cancer-research-centre-a-public-involvement-case-study/>
- **Banc Data SAIL/ Prifysgol Abertawe:** SAIL Prosiectau Myfyrwyr 2023 - <https://saildatabank.com/sail-databank-student-projects-2023/>

Ein blwyddyn mewn niferoedd



O incwm
ymchwil
wedi'i
sicrhau



wedi'u
creu yng
Nghymru

Metrigau Craidd Cyfnod adrodd: 2023/2024

Gwobr seilwaith Ymchwil lechyd a Gofal Cymru i'r grŵp



Cyllid
uniongyrchol
a ddyfarnwyd

£1m

Swyddi a
grëwyd drwy
gyllid
uniongyrchol



Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Grantiau a enillwyd	Dan arweiniad y grŵp	Grŵp yn cydweithio
Nifer	0	56
Gwerth	£0	£72.2m
Cyllid i Gymru	£0	£33.4m
Cyllid i grŵp	£0	£1m
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru	25	4
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp	11.5	2.5



Nifer y cyhoeddiadau



Nifer y digwyddiadau
ymgysylltu â'r cyhoedd




Nifer y cyfleoedd i'r
cyhoedd gymryd rhan

Ffrwd waith 1

Rhedeg gwasanaeth craidd SAIL, gan ddarparu gwasanaeth cymorth cynhwysfawr i brosiectau ymchwil i alluogi mynediad at ddata SAIL.

Drwy gydol y flwyddyn, mae tîm SAIL wedi parhau i gynig amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau cymorth i bortffolio eang o brosiectau ymchwil. Ymhlith y gweithgareddau allweddol roedd y canlynol:

Pennu Cwmpas Prosiectau – Mae tîm SAIL yn gweithio gydag ymchwilwyr i bennu cwmpas eu prosiectau, gyda'r nod o gynhyrchu dogfen wedi'i theilwra sy'n nodi eu gofynion yn glir, ochr yn ochr â'r costau cysylltiedig. Pennwyd cwmpas nifer eithriadol o brosiectau yn 2020, gan ddangos y rôl hanfodol a oedd gan SAIL yn ystod y pandemig. Ers hynny, rydym wedi dychwelyd i lefel y galw am wasanaethau a welwyd cyn y pandemig. Rydym yn cael ymholiadau am ddefnyddio SAIL gan amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys sefydliadau academiaidd, y GIG a sefydliadau'r llywodraeth, ac elusennau. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth diwygio ar gyfer prosiectau byw. Lle mae angen setiau data ychwanegol neu wasanaethau eraill, rydym yn cynnal ymarfer cwmpasu i asesu'r gofynion hyn a phennu costau ar eu cyfer.




FFRWD WAITH 1

Adolygu Llywodraethu - Pan fydd ymchwilwyr eisiau defnyddio data SAIL, bydd angen iddynt gyflwyno cais i gael cymeradwyaeth y Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP). Nod SAIL yw adolygu a darparu penderfyniad a/neu adborth o fewn pythefnos i dderbyn cais. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd cywirdeb a'r manylion yng nghais prosiect i'r IGRP, rydym yn cwblhau adolygiad deuol o bob cais newydd. Mae sicrhau bod pob cais o ansawdd uchel a bod y data gofynnol wedi'i ddiffinio'n glir yn helpu i gefnogi darparu data, i adolygu allbwn ffeil ac i leihau oedi sy'n digwydd fel arall pan fydd angen cymeradwyo diwygiadau dilynol. Unwaith y bydd ein hadolygiad mewnol wedi'i gwblhau, bydd y cais yn cael ei drosglwyddo i'r IGRP allanol. Mae'r broses gymeradwyo lawn yn cymryd hyd at 3 mis fel arfer.

Yn 2023, mae nifer y ceisiadau newydd a'r ceisiadau diwygio wedi aros yn gyson â'r nifer a ddaeth i law yn 2022. Rydym wedi cyflwyno aelodau ychwanegol i'n tîm adolygu er mwyn cynyddu ein capasiti, gwybodaeth a chyfleoedd.

Number of Internal IGRP Reviews Undertaken



FFRWD GWAITH 1


Darparu Data

Unwaith y bydd prosiect wedi'i gymeradwyo, rydym yn darparu gwasanaeth mewnol i adeiladu golwg data'r prosiect cyn eu bod ar gael i'r ymchwilyr. Mae'r broses hon yn sicrhau mai dim ond y data sydd ei angen ac a gymeradwywyd yn eu cais IGRP, ac sy'n cyd-fynd â gofynion y darparwyr data, y bydd yr ymchwilyr yn ei gael. Mae gennym wiriadau ansawdd o olwg prosiectau safonol a gynhelir yn erbyn y ffordd mae prosiectau yn edrych.

Ein nod yw darparu golwg o'r prosiect o fewn 30 diwrnod i gymeradwyo cais, lle mae'r data ar gael ac wedi'i gymeradwyo. Yn 2023, cwblhawyd 80% (119/150) o'r data prosiect a ddarparwyd o fewn 30 diwrnod i gymeradwyo cais a/neu i'r data fod ar gael. Mae aelodau newydd o'r tîm yn cael eu hyfforddi i ddarparu data er mwyn gwella hyn.

Gwelwyd ychydig yn llai o geisiadau darparu gan brosiectau yn 2023 o gymharu â 2022, ond mae'r galw yn dal i fod cryn dipyn yn uwch na'r hyn a welwyd cyn 2020.

Number of data provision requests by type
Nifer y ceisiadau i ddarparu data yn ôl math



FFRWD WAITH 1

Archwilio Prosiectau

Mae archwiliadau o brosiectau yn sicrhau bod cydymffurfiaeth â threfniadau llywodraethu SAIL a chydag achrediad allanol fel Deddf yr Economi Ddigidol. Archwiliwyd cyfanswm o 20 o brosiectau fel rhan o raglen archwilio prosiectau flynyddol SAIL. Cafodd y rhain eu dewis ar hap o adroddiad o brosiectau gweithredol ar ddiwedd 2022. Caiff y prosiectau eu hasesu gan ddefnyddio meini prawf cadarn sy'n cwmpasu cylch oes y prosiect, ac mae angen mewnbwn o bob rhan o dîm SAIL er mwyn cwblhau pob archwiliad.

Mae rhai camau gweithredu allweddol wedi codi o'r broses archwilio, ac maent wedi'u rhoi ar waith:

- Gwella cyfathrebu gwybodaeth allweddol mewn modd amserol
- Darparu pecyn cynefino a phecyn croeso er mwyn helpu defnyddwyr newydd i gychwyn arni gyda SAIL a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â threfniadau llywodraethu.
- Gwella prosesau ar gyfer monitro ac olrhain camau gweithredu archwilio prosiectau

Caiff canfyddiadau eu hadrodd i Grŵp Gweithrediadau SAIL a chaiff y broses o roi camau gweithredu ar waith ei monitro gan bwyllgor archwilio mewnol. Mae'r broses o archwilio prosiectau ar gyfer 2024 yn mynd rhagddi ar hyn o bryd.

Adolygiadau Ffeilio Allan


- Mae ymchwilyr yn cael mynediad at ddata SAIL dwy Borth diogel SAIL ac, unwaith y maent wedi paratoi'r allbynnau y byddent yn hoffi iddynt gael eu rhyddhau o Borth SAIL, caiff yr allbynnau hyn eu hadolygu gan ein Hadolygwyr Ffeilio Allan er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Pholisi Allbwn SAIL. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar sut i baratoi eich ffeiliau ar dudalen Wiki SAIL "SAIL Output User Guide". Gofynnwn i bob defnyddiwr SAIL sicrhau ei fod yn:
 - Gwneud cais am y ffeiliau y maent wir eu hangen o'r porth, a dim ond y ffeiliau hynny
 - Cynnal adolygiadau o allbwn prosiectau yn y porth lle bynnag y bo'n bosibl
 - Rhoi sylw manwl i'r gofynion o ran dogfennaeth a sicrhau bod y cais wedi'i ddogfennu'n llawn gyda'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom i gynnal adolygiad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y ffeiliau y gwneir cais iddynt gael eu rhyddhau o SAIL wedi parhau i dyfu. Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr 2023 a mis Rhagfyr 2023, er i lai o geisiadau ddod i law (-4%), gwelwyd cynnydd yn nifer y ffeiliau yr oedd angen eu hadolygu (+12%) o gymharu â 2022. Mae hyn yn cyfateb i tua 206 o ffeiliau'r wythnos ar gyfartaledd.

FFRWD WAITH 1

Adolygiadau Ffeilio Allan – parhad

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i wella gwasanaethau, rydym yn parhau i edrych ar ddatblygu cyfleusterau a fydd yn nodi materion cyffredin mewn ceisiadau Ffeilio Allan SAIL gyda'r nod o gynyddu'r amserlen adolygu ffeilio allan a lleihau'r risg sy'n gysylltiedig ag adolygiadau dynol. Byddwn hefyd yn adolygu ein Polisi Data Allan ar gyfer gwneud gwelliannau posibl i'n gwasanaethau.



Ffrwd waith 2

Caffael data i fodloni gofynion ein sylfaen defnyddwyr

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, mae SAIL wedi gweithio'n galed i gael data newydd a diweddarau setiau data sy'n bodoli eisoes. Mae'r setiau data canlynol yn rhai newydd i SAIL:

- Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
- Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys Cymru
- ISARIC CCP – Data'r DU
- Mae cytundeb wedi'i lofnodi i gael Data o Gofrestrfa'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Mae cytundebau yn cael eu prosesu gyda nifer o awdurdodau lleol i gaffael data Ailalluogi Gofal i gefnogi prosiectau'r Labordy Data Rhwydweithiol yn y lle cyntaf

Yn ogystal â'r caffaeliadau hyn, mae SAIL wedi diweddarau nifer o setiau data allweddol ac wedi datrys rhai materion hysbys yn ymwneud ag ansawdd a chyflawnder

Data Sgrinio
Coluddion
Cymru

Data Bron
Brawf Cymru

Data Uned
Gwybodaeth ac
Arolygaeth
Canser Cymru

Mae ceisiadau ar gyfer data Cyfrifiad 2021, ar gyfer Cymru a Lloegr, yn dod i law hefyd gan ymchwilwyr achrededig. Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr yw'r arolwg cenedlaethol mwyaf a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Bydd ymchwilwyr yn gallu gwneud cais i gysylltu data Cyfrifiad 2021 â llawer o ffynonellau data eraill a ddelir yn SAIL.

Mae data Cyfrifiad 2021 yn cynnwys:

- Ethnigrwydd
- Crefydd
- Gwlad enedigol
- Anabledd
- Iechyd (hunangofnodedig)
- Tai
- Addysg
- Cyflogaeth

Am y tro cyntaf, mae data'r cyfrifiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol a chyn-filwyr y Lluoedd Arfog.

Ffrwd waith 3

Cynyddu cyflymder ac effeithlonrwydd ymchwil drwy ddatblygu cyfres o offer y gellir eu haildefnyddio (Llyfrgell Cysyniadau) a fydd yn ein galluogi i leihau'n sylweddol yr amser a'r ymdrech sy'n ofynnol i gynnal dadansoddiad cyflawn o gwestiwn ymchwil ym **Manc Data SAIL.**

Mae Banc Data SAIL yn gweithio mewn cydweithrediad â HDRUK. Mae rhyngwyneb y Llyfrgell Ffenoteipiau wedi cael ei ailddylunio ac mae'n caniatáu i ddefnyddwyr ychwanegu a golygu ffenoteipiau drwy ben blaen y llwyfan. Mae SAIL hefyd wedi bod yn gweithio gyda HDRUK i gynnwys y Llyfrgell Ffenoteipiau yng nghynhyrchion Atlas a Gateway HDRUK gyda'r nod o sicrhau bod pob un o'r cynhyrchion yn ategu ei gilydd a darparu gwybodaeth gydgysylltiedig i gefnogi ymchwilwyr, clinigwyr ac eraill gyda'u gwaith.

Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud hefyd i ddatblygu offer dadansoddi a setiau data wedi'u glanhau. Mae'r allbynnau WDS glân wedi'u diweddarau, a ddiwygiwyd i gefnogi fformat data newydd gan lechyd a Gofal Digidol Cymru, wedi cael eu croesawu gan ddefnyddwyr SAIL. Mae'r set ddata meddygon teulu 'lân' newydd wedi cael ei rhyddhau a bwriedir datblygu hyn ymhellach i gynnwys codau digwyddiadau ychwanegol. At hynny, mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu offer a fydd yn helpu prosiectau i adeiladu eu carfanau.

Concept
Library

EDRYCH I'R DYFODOL

Mae 2023-24 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn i Fanc Data SAIL, pan gawsom ein hanrhydeddu gyda Gwobr Pen-blwydd y Frenhines. Ond wrth i ni ddynesu at ail hanner y degawd, does dim bwriad gennym i orffwys ar ein bri. Mae ein gweledigaeth strategol ar gyfer datblygiad parhaus SAIL rhwng 2024 a 2030 yn seiliedig ar thema sy'n codi dro ar ôl tro, sef meithrin a chynnal partneriaethau – gyda chynrychiolwyr y cyhoedd, gyda'n chwaer-raglen a'n darparwr technoleg SeRP a chyda rhanddeiliaid allweddol fel Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Abertawe. Rydym yn bwriadu mabwysiadu'r un dull gweithredu i dyfu a datblygu ymhellach ein safle o fewn Tirwedd Ymchwil Data'r DU ac yn rhyngwladol, gan geisio gweithio mewn partneriaeth ag Amgylcheddau Ymchwil eraill yr Ymddiriedir Ynddynt (TRES) ac Amgylcheddau Data Diogel (SDEs) eraill drwy atebion data wedi'u ffedereiddio, yn hytrach na chymryd rhan mewn cystadleuaeth a allai fod yn niweidiol ac a allai waethygu'r problemau a welir ar hyn o bryd gydag adnoddau data mewn seilo.

Yn agosach at gartref, rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru wrth iddynt gynllunio i weithredu seilwaith data cenedlaethol integredig i wireddu'r weledigaeth a nodir yn y Strategaeth Ddigidol i Gymru ac edrychwn ymlaen at gydnabod ein rôl ni fel yr Amgylchedd Ymchwil cenedlaethol yr Ymddiriedir Ynddo yng Nghymru. Fel rhan o'r ffrwd waith hon, rydym yn gobeithio gweithio'n agosach gyda'r GIG a Llywodraeth leol i sicrhau bod hyd yn oed mwy o ddata ar gael a allai ddod â buddiannau enfawr posibl i ymchwilwyr, y cyhoedd ac economi Cymru.

'...wrth i ni ddynesu at ail hanner y degawd, does dim bwriad gennym i orffwys ar ein bri.'

RHESTR TERMAU

Term	Diffiniad
Gorbryder	Emosiwn sy'n cael ei nodweddu gan deimladau o densiwn, gofid, a newidiadau corfforol fel pwysedd gwaed uwch. Nid yw gorbryder yr un fath ag ofn, ond cânt eu defnyddio'n gyfnewidiol yn aml. Ystyrir bod gorbryder yn ymateb hirweithredol, sy'n ymwneud â'r dyfodol, ac sy'n canolbwyntio'n gyffredinol ar fygythiad anhysbys, tra bod ofn yn ymateb priodol, byrhoedlog yn y presennol i fygythiad penodol y gellir ei adnabod yn glir.
Deallusrwydd Artiffisial	Theori a datblygiad systemau cyfrifiaduron sy'n gallu cyflawni tasgau sydd angen deallusrwydd dynol fel arfer, fel canfyddiad gweledol, cydnabod lleferydd, gwneud penderfyniadau, a chyfieithu rhwng ieithoedd.
Cyrhaeddiad	Y safon academaidd y mae disgyblion yn ei chyrraedd mewn asesiadau ac arholiadau.
Anhwyllder Deubegynol	Cyflwr iechyd meddwl sy'n effeithio ar hwyliau person, a all achosi iddynt symud yn ôl ac ymlaen o un eithaf i'r llall. Arferai gael ei alw'n iselder manig.
Gofalwr	Perthynas, ffrind neu bartner sy'n darparu, sy'n bwriadu darparu, neu a arferai ddarparu swm cryn dipyn o ofal i berson arall yn rheolaidd, ond nid yw o reidrwydd drwy fyw gyda nhw.
Cyfrifiad	Cyfrif cyflawn cyfnodol o boblogaeth sydd fel arfer yn cynnwys gwybodaeth gymdeithasol a gwybodaeth economaidd, e.e. galwedigaeth, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd. Yn y DU, mae'r rhain yn cael eu cynnal bob deng mlynedd.

RHESTR TERMAU

Cyflwr Cronig	Problem iechyd y mae angen ei rheoli'n barhaus dros gyfnod o flynyddoedd neu ddegawdau. Mae'n un na ellir ei gwella ar hyn o bryd ond gellir ei rheoli drwy ddefnyddio meddyginiaeth a/neu therapïau eraill.
Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint	Clefyd cyffredin yr ysgyfaint sy'n cyfyngu ar lif yr aer ac yn achosi problemau anadlu. Weithiau fe'i gelwir yn emffysema neu'n bronchitis cronig.
Newid Hinsawdd	Newidiadau sylweddol mewn glawiad, patrymau gwynt a thymheredd y byd, yn ogystal â mesurau hinsawdd eraill sy'n digwydd dros nifer o ddegawdau neu'n hwy.
Agored i Niwed yn Glinigol	Cleifion â chyflyrau sy'n effeithio ar y system imiwnedd sy'n golygu bod risg uwch y byddant yn cael haint a salwch.
Carfan	Grwpiau o unigolion â nodweddion cyffredin, fel ffactorau cymdeithasol ac iechyd.
Astudiaeth Garfan	Astudiaeth ymchwil sy'n cymharu canlyniad penodol (fel canser yr ysgyfaint) mewn grwpiau o unigolion sy'n debyg mewn llawer o ffyrdd ond sydd ag un nodwedd sy'n wahanol.
Cyfansoddiad	Ystadegau poblogaeth yn ôl nodweddion fel oedran, rhyw, ethnigrwydd ac ati.
Methiant y Galon	Cyflwr hirdymor lle nad yw'r galon yn gallu pwmpio gwaed o amgylch y corff yn gywir. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd oherwydd bod y galon yn rhy wan neu'n rhy stiff.
Pandemig COVID-19	Digwyddiad clefyd byd-eang, a ddechreuodd yn Tsieina yn 2019 ac a ledaenodd yn fyd-eang wedyn ar ddechrau 2020, a achoswyd gan y coronafeirws SARS-CoV-2. Gelwir hefyd yn bandemig y coronafeirws.
Mynediad at Ddata	Argaeledd data a'r broses o gael mynediad at y data hwnnw at ddibenion ymchwil. Mae mynediad at ddata yn digwydd ar sbectwm, a gall yr amodau sy'n gysylltiedig â chael mynediad at ddata amrywio yn ôl prosiect, ymchwilydd, a rheolydd data.

RHESTR TERMAU

Dadansoddi Data	Y broses o ddefnyddio technegau ystadegol a/neu resymegol yn systematig i ddisgrifio a dangos, crynhoi, a gwerthuso data.
Data yn Dod i Mewn	Y broses o dderbyn a throsglwyddo data o ffynonellau allanol i system neu rwydwaith.
Rheoli Data	Yr arfer o gasglu, cadw a defnyddio data'n ddiogel, yn effeithlon ac yn gost-effeithiol.
Grŵp Rheoli Data	Y tîm o bobl sy'n gyfrifol am reoli data mewn sefydliad.
Darparu Data	Y broses o sicrhau bod data ar gael mewn fformat strwythuredig a defnyddiadwy.
Rhannu Data	Y gallu i sicrhau bod yr un adnoddau data ar gael i un defnyddiwr neu lawer o ddefnyddwyr.
Cofrestr Defnyddio Data	Rhestr neu gofnod cyhoeddus o ffyrdd o ddefnyddio data a gymeradwywyd ar gyfer ymchwil gan warcheidwaid y data.
Ymchwil a Lywir gan Ddata	Maes ymchwil sy'n delio â dadansoddeg data a methodolegau delweddu. Yn fras, mae'r maes hwn yn cynnwys theorïau a methodolegau o amrywiaeth o ddisgyblaethau sy'n llywio'r ffordd y mae ymchwilydd yn casglu, yn dadansoddi ac yn hidlo setiau data er mwyn ennyn dealltwriaeth am bwnc penodol.
Set Ddata	Casgliad o ddata.
Dadansoddiad Coeden Penderfyniadau	Dull sy'n amlinellu yn weledol ganlyniadau a chostau posibl penderfyniad cymhleth. Mae'r coed hyn yn ddefnyddiol iawn ar gyfer dadansoddi data meintiol a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar niferoedd.
Demograffig	Grŵp o bobl a nodweddir gan gyfres benodol o briodweddau e.e. oedran, rhyw, galwedigaeth.

RHESTR TERMAU

Iselder	Cyflwr iechyd cyffredin a nodweddir gan hwyliau isel neu ddiffyg pleser neu ddiddordeb mewn gweithgareddau am gyfnodau hir.
Amddifadedd	Canlyniad prinder incwm ac adnoddau eraill, y gellir ystyried ei fod yn gyfystyr â byw mewn tlodi. Mae llywodraeth y DU yn mesur amddifadedd yn seiliedig ar saith parth: amddifadedd incwm, amddifadedd cyflogaeth, amddifadedd addysg, sgiliau a hyfforddiant, amddifadedd iechyd ac anabledd, rhwystrau i dai a gwasanaethau, amddifadedd amgylchedd byw.
Diabetes	Clefyd cronig a nodweddir gan lefelau uwch o siwgr yn y gwaed, sy'n arwain, dros amser, at niwed difrifol i'r galon, y pibellau gwaed, y llygaid, yr afu a'r nerfau.
Diagnosis	Nodi natur salwch neu broblem arall drwy archwilio'r symptomau.
Difreintiedig	Mewn amgylchiadau anffafriol, yn enwedig o ran cyfleoedd ariannol neu gymdeithasol.
Lledaenu	Y weithred o wasgaru rhywbeth, yn enwedig gwybodaeth, yn eang.
Cam-drin Domestig	Achos neu batrwm o achosion o ymddygiad rheolaethol, cymhellol, bygythiol, diraddiol a threisgar, gan gynnwys trais rhywiol, a gyflawnir yn y mwyafrif o achosion gan bartner neu gyn-bartner, ond hefyd gan aelod o'r teulu neu ofalwr. Term ehangach na thrais domestig gan ei fod yn cynnwys cam-drin emosiynol, economaidd ac ariannol neu reolaeth drwy orfodaeth.
Trais Domestig	Trais neu gamdriniaeth sy'n digwydd mewn lleoliad domestig. Er ei fod yn debyg i gam-drin domestig, mae'n ymwneud â thrais corfforol fel arfer.
Ethnigrwydd	Priodwedd perthyn i grŵp neu is-grŵp o'r boblogaeth sy'n cynnwys pobl sy'n rhannu cefndir neu dras ddiwylliannol.
Fframwaith	Strwythur sylfaenol sy'n sail i system, cysyniad neu destun.

RHESTR TERMAU

Prydau Ysgol am Ddim	Budd-dal statudol sydd ar gael i blant o oedran ysgol o deuluoedd sy'n cael budd-daliadau cymhwyso eraill ac sydd wedi bod drwy'r broses gofrestru berthnasol sy'n golygu bod hawl ganddynt i gael prydau ysgol am ddim.
Dyfarniad Cyllido	Swm o arian a roddir i sefydliad i'w ddefnyddio at ddiben y cytunir arno.
Genom	Y set gyflawn o enynnau neu ddeunydd genynnol sy'n bresennol mewn cell neu fod byw.
Genomeg	Y gangen o fioleg folecwlaidd sy'n ymwneud â strwythur, swyddogaeth, esblygiad a mapio genomau.
Arfer Da	Dull o weithio neu gyfres o ddulliau gweithio a dderbynnir yn swyddogol fel y rhai gorau i'w defnyddio mewn busnes neu ddiwydiant penodol, a ddisgrifir yn ffurfiol ac yn fanwl fel arfer.
Data Iechyd	Data personol sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl unigolyn neu'r boblogaeth, gan gynnwys darparu gwasanaethau gofal iechyd, sy'n datgelu gwybodaeth am ei/eu statws iechyd.
Ymchwil Data Iechyd	Maes ymchwil amlddisgyblaethol sy'n casglu, yn dadansoddi ac yn cysylltu gwybodaeth am bobl a'u hiechyd er mwyn galluogi datblygiadau ym maes gofal iechyd i bawb.
Defnyddio Adnoddau Gofal Iechyd	Y defnydd o amser staff gofal iechyd, cyfleusterau neu ddeunyddiau traul (yn enwedig meddyginiaethau).
Data Hanesyddol	Gwybodaeth a grëwyd ac a ddogfennwyd mewn prosiectau a datblygiadau cynharach.
Delweddu	Y canlyniadau (h.y. y delweddau neu'r lluniau) a gynhyrchir gan brofion delweddu meddygol fel profion uwchsain, sganiau CT, sganiau MRI, sganiau PET a phelydr-X.
Haint	Germau sy'n mynd i mewn i'r corff ac yn tyfu.

RHESTR TERMAU

Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth	Panel sy'n rhoi arweiniad a chyngor ar bolisiâu, gweithdrefnau a phrosesau Llywodraethu Gwybodaeth i Fanc Data SAIL. Mae'r Panel yn adolygu'r holl geisiadau i ddefnyddio Banc Data SAIL er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac er budd y cyhoedd, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau a sectorau gwahanol, ac aelodau o'r cyhoedd.
Menter	Cynllun neu weithred newydd i wella rhywbeth neu ddatrys problem.
Rhyng-ddisgyblaethol	Yn cynnwys dwy ddisgyblaeth academaidd wyddonol neu artistig neu fwy.
Ymyriad	Cam a gymerir i wella anhwylder meddygol.
Disgwyliad oes	Y cyfnod ar gyfartaledd y gall person ddisgwyl byw.
Cyfyngiadau symud	Sefyllfa neu gyfnod lle y caiff symudiadau o fewn ardal neu fynediad at ardal eu cyfyngu er budd diogelwch neu iechyd y cyhoedd.
Cyflwr Iechyd Hirdymor	Cyflwr na ellir ei wella ar hyn o bryd ond gellir ei reoli drwy feddyginiaeth a therapïau.
Dysgu Peirianyddol	Defnyddio a datblygu systemau cyfrifiadurol sy'n gallu dysgu ac addasu heb ddilyn cyfarwyddiadau penodol, drwy ddefnyddio algorithmau a modelau ystadegol i ddadansoddi a dod i gasgliadau o batrymau mewn data.
Mecanwaith	Proses naturiol neu sefydledig y bydd rhywbeth yn digwydd o ganlyniad iddo.
Salwch Meddwl	Cyflwr sy'n achosi anhwylder difrifol o ran y ffordd mae person yn ymddwyn neu'n meddwl.
Metadata	Data sy'n darparu gwybodaeth am ddata arall, nid cynnwys y data ond metadata gweinyddol, disgrifiadol a strwythurol. Mae metadata yn gysylltiedig â phob set ddata, sy'n helpu defnyddwyr i benderfynu a fyddai'r set ddata yn ddefnyddiol i'w prosiect ymchwil a ph'un a fyddent yn gymwys i gael mynediad at y set ddata.

RHESTR TERMAU

Aml-forbidrwydd	Presenoldeb 2 gyflwr iechyd hirdymor neu fwy
Gorlenwi	Presenoldeb mwy o bobl neu bethau mewn gofod nag sy'n gyfforddus, yn ddiogel, neu sy'n cael ei ganiatáu.
Pandemig	Achosion niferus o glefyd heintus dros wlad gyfan neu'r byd ar adeg benodol.
Papur	Cyhoeddiad ymchwil academaidd.
Cymheiriad	Person o'r un oedran, statws, neu allu â pherson penodol arall.
Cyflawnwr	Rhywun sydd wedi cyflawni trosedd neu weithred niweidiol neu dreisgar
Ffenoteip	Y gyfres o nodweddion gweladwy sy'n deillio o ryngweithiad genoteip unigolyn â'r amgylchedd.
Llyfrgell Ffenoteipiau	Adnodd cynhwysfawr, mynediad agored sy'n darparu gwybodaeth, offer ac algorithmau ffenoteipio ar gyfer cofnodion iechyd electronig i'r gymuned ymchwil.
Prif Araith	Araith a wneir ar ddechrau neu ar ddiwedd cynhadledd fel arfer, sy'n anelu at ysbrydoli, hysbysu neu herio'r gynulleidfa.
Gofal Sylfaenol	Gofal iechyd a ddarperir yn y gymuned ar gyfer pobl sy'n mynd at ymarferydd meddygol neu glinig am y tro cyntaf i gael cyngor neu driniaeth.
Sector Preifat	Y rhan o'r economi genedlaethol nad yw o dan reolaeth uniongyrchol y wladwriaeth.
Archwilio Prosiect	Math ffurfiol o "adolygu prosiect", a ddylunnir fel arfer i werthuso i ba raddau y mae safonau rheoli prosiect yn cael eu dilyn.
Pennu Cwmpas Prosiect	Rhan o'r gwaith o gynllun prosiect sy'n cynnwys pennu a dogfennu rhestr o nodau, pethau cyflawnadwy, tasgau, costau a therfynau amser sy'n benodol i'r prosiect.
Seicosis	Cyflwr meddygol lle mae person yn gweld neu'n clywed pethau nad ydynt yno (rhithweledigaethau) neu'n credu pethau nad ydynt yn wir (rhithdybiau).

RHESTR TERMAU

Sector Cyhoeddus	Y rhan o'r economi a reolir gan y wladwriaeth.
Cyhoeddiad	Dogfennau, posteri, llawysgrifau, crynodebau neu debyg, o natur wyddonol neu feddygol, sy'n cynnwys unrhyw ddata, canlyniadau unrhyw dreial clinigol neu unrhyw wybodaeth arall am y Cynnyrch Trwyddedig neu sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch hwnnw.
Incwm Cymharol	Y gwahaniaeth mewn incwm person o gymharu ag incwm cyfartalog
Ffactor Risg	Newidyn sy'n cynyddu risg neu dueddiad
Data (Gofal) Iechyd Arferol	Data a gesglir yn rheolaidd o gyfleusterau iechyd cyhoeddus, preifat a chymunedol a rhaglenni iechyd.
Anhwylder Sgitsoaffeithiol	Salwch meddwl a all effeithio ar eich meddyliau, eich hwyliau a'ch ymddygiad.
Sgitsoffrenia	Cyflwr iechyd meddwl difrifol sy'n effeithio ar sut mae pobl yn meddwl, yn teimlo ac yn ymddwyn. Gall arwain at gymysgedd o rithweledigaethau, rhithdybiau, a meddyliau ac ymddygiad di-drefn. Mae rhithweledigaethau yn cynnwys gweld pethau neu glywed lleisiau nad yw pobl eraill yn eu gweld/clywed.
Sgrinio	Y broses o nodi pobl sy'n ymddangos yn iach y gall fod mwy o siawns ganddynt o gael clefyd neu gyflwr.
Gofal Eilaidd	Triniaeth na chaiff ei darparu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Gall fod yn feddyg sy'n arbenigo mewn clefyd neu gyflwr penodol, neu'n glinig neu'n ddarparwr gofal sy'n ymwneud â maes penodol.
Rhyw	Y naill neu'r llall o'r ddau brif gategori (gwryw a benyw) y mae bodau dynol a'r rhan fwyaf o bethau byw eraill yn cael eu rhannu iddynt ar sail eu swyddogaethau atgynhyrchiol.
Cyfeiriadedd Rhywiol	Hunaniaeth person mewn perthynas â'r rhywedd neu'r rhyweddau y maent yn cael eu denu'n rhywiol atynt.
Rhoi'r Gorau i Ysmygu	Gweithgareddau sy'n anelu at helpu pobl i roi'r gorau i ysmegu.

RHESTR TERMAU

Gofal Cymdeithasol	Darparu gwaith cymdeithasol, gofal personol, gwasanaeth amddiffyn neu wasanaethau cymorth cymdeithasol i blant neu oedolion mewn angen neu sy'n wynebu risg, neu oedolion ag anghenion sy'n deillio o salwch, anabledd, henaint neu dlodi.
Demograffig-gymdeithasol	Cyfuniad o ffactorau cymdeithasol a demograffig sy'n diffinio unigolion mewn poblogaeth neu grŵp penodol.
Statws Economaidd-gymdeithasol	Statws neu ddsbarth cymdeithasol unigolyn neu grŵp. Fe'i mesurir yn aml fel cyfuniad o addysg, incwm a galwedigaeth.
Dadansoddiad Ystadegol	Y broses o gasglu a dadansoddi symiau mawr o ddata er mwyn nodi tueddiadau a datblygu mewnwelediadau gwerthfawr.
Trydydd Sector	Y rhan o economi neu gymdeithas sy'n cynnwys sefydliadau neu gymdeithasau nid-er-elw neu anllywodraethol, gan gynnwys elusennau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cwmnïau cydweithredol ac ati.
Trosglwyddo	Y weithred neu'r broses o drosglwyddo rhywbeth, neu'r cyflwr o gael e drosglwyddo.
Amgylchedd Ymchwil yr Ymddiriedir Ynddo	Mannau cyfrifiadura diogel iawn sy'n darparu mynediad o bell i ddata iechyd ar gyfer ymchwilwyr cymeradwy. Gallant hefyd gael eu galw'n Hafanau Diogel ar gyfer Ddata neu Amgylcheddau Diogel ar gyfer Data.
Cyfeirnodau Eiddo Unigryw	Y dynodwr unigryw ar gyfer pob lleoliad â chyfeiriad yn y Deyrnas Unedig.
Brechlyn	Sylwedd a ddefnyddir i ysgogi imiwnedd i bathogen neu glefyd heintus penodol, a baratoir fel arfer o ffurf wannach neu heb ei hactifadu ar y cyfrwng achosol neu o'i gyfansoddion neu gynhyrchion.
Yn Betrus am gael Brechlyn	Gwrthod neu fod yn amharod i gael eich brechu/bod eich plant yn cael eu brechu yn erbyn clefyd neu glefydau heintus.
Newidyn	Elfen, nodwedd neu ffactor sy'n debygol o newid.



SAIL DATABANK

Ariennir gan



Cefnogir gan



Ardystiedig ac achrededig



IS632731



Mewn partneriaeth â



www.SAILDatabank.com

wedi ei bweru gan

